



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Clwb Ilar

**Ysgol Llanilar
Llanilar
Aberystwyth
SY23 4PA**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cyhoeddi

Dydd Llun, 30 Hydref 2017

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2017.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl awwir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cwyd-destun

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Clwb Ar ôl Ysgol Ilar yn 2009 i ddarparu gofal y tu allan i oriau ysgol i uchafswm o 24 o blant. Ar adeg yr arolygiad, cynigiodd y gwasanaeth ofal i blant o bedair i 11 oed rhwng 3.30pm a 5.30pm, o ddydd Llun i ddydd Iau yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Y person cofrestredig yw Michael Carruthers a'r person â gofal yw Nia Evans. Cymraeg yw iaith y gofal. Mae Clwb Ilar yn gweithredu o ganolfan gymunedol Yr Hen Ysgol, Llanilar.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Gwelsom fod plant yn mwynhau eu hunain yng Nghlwb Ilar. Maent yn cael hwyl gyda'u ffrindiau ac yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a chyffrous. Mae'r plant yn derbyn gofal gan staff gwybodus a meithringar sy'n diwallu eu hanghenion yn hyderus. Mae rhieni'n fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.

2. Gwelliannau

Mae'r plant yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio'r gweithgareddau

3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhell y canlynol

- bod plant yn cael cyfle i fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd
- bod arweinwyr yn cofrestru'r clwb ar ôl ysgol gydag asiantaeth safonau bwyd yr awdurdod lleol.

1. Llesiant

Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu'n dda yn y clwb. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau'r clwb, chwarae gyda'u ffrindiau a gwneud gweithgareddau fel celf a chreffft, lego, chwarae pŵl, yn ogystal â phêl-droed tu allan.

Ein canfyddiadau

1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ac yn eu mynegi eu hunain.

Gwelsom blant yn dewis gemau yn hyderus ac yn gwneud ceisiadau i staff. Roedd y plant yn dewis yn annibynnol a oeddent am chwarae ar eu pennau eu hunain, gyda ffrindiau, neu gyda'r staff. Gofynnodd y plant i staff ymuno â nhw mewn gêm o bŵl, yn ogystal â gofyn am ddarn mwy o bapur yn ystod chwarae ddychmygol i ysgrifennu rhestr siopa. Gofynnodd y plant i staff osod yr Xbox iddynt. Ymatebodd staff yn gadarnhaol bob tro i ofynion plant. Yn ystod amser byrbryd roedd y plant yn cael dewis o ffrwyth ac yn cael cynnig rhywbeth gwahanol i dost, sef byrbryd arferol nos Lun. Roeddent yn gwrtais iawn ac yn hyderus wrth rhyngweithio gyda staff.

Mae'r plant yn hyderus bod ganddynt lais.

1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn ffurfio perthnasau cadarnhaol ag eraill ac maent yn teimlo'n ffyddiog y bydd eu teimladau'n cael eu hystyried.

Roedd plant yn gwenu, chwerthin, ac yn sgwrsio gyda'u ffrindiau ac oedolion. Roedd y plant yn nodi'r staff y byddent am siarad â hwy pe byddent yn teimlo'n drist, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y clwb. Gwnaethom arsylwi fod y plant yn hapus wrth gyrraedd y clwb. Roeddent yn amlwg yn gyfarwydd â'r drefn wrth gyrraedd y ganolfan gymunedol, a golchodd y plant eu dwylo yn syth cyn byrbryd. Cychwynnodd y plant hŷn gem o "Fe wela' i efo'n llygad bach i" tra roedd y byrbryd yn cael ei baratoi. Roedd plant yn cymryd tro am yn ail yn naturiol ac yn chwerthin yn hapus wrth i opsiynau amrywiol gael eu gweiddi allan a'u gwrthod.

Mae'r plant wedi ymgartrefu'n dda ac maent yn teimlo'n ddiogel a hapus.

1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol gyda'u cyfoedion ac oedolion.

Gwelsom blant yn cyd-chwarae trwy gydol sesiwn y clwb. Roedd grŵp o blant yn chwarae'n hapus gyda'r lego ac yn trafod ble i roi eu magnelau. Chwaraeodd dau o blant gyda'r doliau ac esgus eu bod yn cysgu yn y babell fach. Roedd plentyn eisiau dangos ei waith yn yr ardal celf a chreffft i aelodau staff. Roedd y plentyn mor falch pan oedd staff yn edmygu'r llun a'i gadw'n ddiogel tan i'r rhiant gyrraedd. Dangosodd y plentyn ei lun yn awyddus i'w riant. Wrth i riant ddod i gasglu ei blentyn, fe gyflwynodd y plentyn ei ffrind iddo yn falch, gan wenu'n llydan. Roedd plant hŷn yn hynod garedig gyda phlant iau, gan symud seddi heb anogaeth fel y gallai plant iau eistedd wrth ochr eu brodyr neu eu chworydd. Gwnaethant hefyd newid partneriaid, pan ofynnwyd iddynt wneud gan blentyn iau, cyn y daith gerdded o'r ysgol i'r ganolfan gymunedol. Wrth chwarae pŵl roedd y plant hŷn yn hynod o amyneddgar gyda phlentyn iau a oedd yn chwarae am y tro cyntaf.

Mae plant yn rhyngweithio'n dda gydag eraill.

1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn chwarae hunangyfeiried yn y clwb hwn, ac yn ymddiddori yn yr hyn y maent yn ei wneud.

Roedd plant yn dewis o nifer o weithgareddau a oedd ar gael. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn gallu dewis beth oeddent yn ei wneud, a'u bod yn mwynhau lliwio, doliau a phramiau, lego, a phêl-droed yn arbennig. Gwelsom blant yn chwarae'n brysur ac yn cymryd rhan lawn yn y gweithgareddau roeddent wedi eu dewis drwy gydol y sesiwn. Roedd grŵp o blant wedi ymgolli yn eu gêm o lego "yr hen ddyddiau". Chwaraeodd dau blentyn yn hapus gyda'r gegin gan roi bwyd ffug yn y ficrodon â'r sosbannau. Fe wnaeth y plant fwynhau chwarae gêm o bŵl, gydag un plentyn yn neidio i fyny ac i lawr wedi cyffroi wrth suddo'r bêl ddu.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae'n fawr iawn.

1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae plant yn hyderus, yn awyddus ac yn datblygu eu hannibyniaeth, er hyn, nid ydynt yn cael cyfleoedd i fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd.

Dangosodd blant hyder wrth ddewis eu gweithgareddau eu hunain ac arwain eu chwarae eu hunain, fel chwarae dychmygol yn y gegin ffug a gyda'r lego. Cychwynnodd y plant hŷn gêm o "Fe wela' i efo'n llygad bach i" a siarâds tra roedd byrbryd yn cael ei baratoi. Cyn byrbryd, roedd y plant yn ymolchi a sychu eu dwylo yn annibynnol. Er hyn, nid oedd plant yn cael y cyfle i fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd. Nid oeddynt chwaith yn cymryd rhan mewn gweithgareddau megis gosod y bwrdd, rhoi menyn ar y tost, tywallt diodydd a chlirio cwpanau a phlatiau i'r man dynodedig.

Mae plant yn datblygu'n dda ac yn cael rhai cyfleoedd i fod yn annibynnol.

2. Gofal a Datblygiad

Crynodeb

Mae staff yn adnabod y plant sydd o dan eu gofal yn dda, ac yn rhoi gofal ymatebol sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Maent yn creu amgylchedd hamddenol a meithringar lle mae plant yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn chwarae o'u dewis.

Ein canfyddiadau

2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae staff wedi cyflawni'r hyfforddiant angenrheidiol i gadw'r plant yn ddiogel ac iach.

Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant, a phan roddwyd gwahanol sefyllfaoedd iddynt, roeddent yn gallu nodi'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant mewn cymorth cyntaf pediatrig, ac roedd ganddynt weithdrefnau mewn lle i ddelio ag unrhyw ddigwyddiad. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant i gyd yn golchi eu dwylo cyn eistedd ar gyfer amser byrbryd. Roedd plant yn cael eu hannog i fwyta'n iach yn ystod amser byrbryd gydag opsiynau amrywiol yn cael eu darparu'n ddyddiol.

Mae'r staff yn effeithlon o ran cadw'r plant yn iach a diogel.

2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae ymarferwyr yn cefnogi plant i ryngweithio'n briodol.

Gwelsom y staff yn annog y plant i rannu, i fod yn garedig â'i gilydd, ac i feddwl am deimladau plant eraill. Roedd staff yn canmol plant yn aml. Roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion, a gwahanol gyfnodau datblygu'r plant, ac roeddent yn sensitif i'r rhain wrth reoli rhyngweithiadau rhwng plant. Roedd y staff yn esiempl o ymddygiad disgwylidig wrth siarad gyda'i gilydd a gyda'r plant mewn ffordd garedig. Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff yn ofalgar ac yn gefnogol a bod eu plant wedi dysgu i fod yn garedig tuag at blant iau a ddefnyddiai'r gwasanaeth. Dywedodd y plant wrthym fod y staff yn garedig tuag atynt yn y clwb.

Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'n dda.

2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn caniatáu i'r plant arwain eu chwarae eu hunain, ac maent yn ymatebol wrth ddarparu cymorth ychwanegol pan fo angen.

Darparodd y staff ofal meithringar ac ymatebol. Gwnaethom ddarganfod, drwy siarad gyda nhw a'u gwyllo, eu bod yn adnabod y plant yn dda. Gwnaethant ddarparu cefnogaeth ychwanegol i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau pan fo angen, megis pan oedd plentyn iau yn ceisio rhoi ei esgidiau ymlaen ac angen cymorth. Gwelsom hefyd aelod o staff yn chwarae gem o bwl ar gais plentyn. Roedd y staff yn cefnogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol ac ieithyddol, oherwydd gwnaethant eistedd ar yr un lefel â'r plant a sgwrsio â nhw am eu diddordebau, yr ysgol, a'u bywydau cartref. Roedd staff wedi cynllunio amrywiaeth o weithgareddau i'r plant ac yn annog y plant i gyfrannu eu syniadau eu hunain hefyd. Fe sgwrsiodd y plant yn frwdfrydig am y rafftau yr oeddent wedi eu hadeiladu yn y clwb yr wythnos gynt, a sut yr oeddent wedi cael eu profi ar yr afon. Fe welsom dystiolaeth ffotograffig o weithgareddau amrywiol a gynlluniwyd megis coginio a chelf a chrefft.

Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae a datblygiad y plant yn effeithiol, ac maent yn gymwys wrth ddiwallu eu hanghenion unigol.

3. Yr Amgylchedd

Crynodeb

Mae arweinwyr yn defnyddio canolfan gymunedol ar gyfer y gofal plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da, ac yn addas i ystod oedran y plant sy'n derbyn y gofal.

Ein canfyddiadau

3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel.

Roedd y drws i'r adeilad wedi ei gadw dan glo ac ni allai ymwelwyr gael mynediad heb gael eu gadael i mewn. Roedd llyfr ymwelwyr ar gael ac roedd yn cael ei ddefnyddio'n weithredol i gofnodi presenoldeb unrhyw ymwelwyr. Roedd cofnodion cynnal a chadw'n dangos bod larymau tân a mwg wedi cael eu profi. Roedd diffoddwyr tân yn cael eu cadw ar y wal ac roedd y gwasanaeth yn cynnal ymarferion tân yn flynyddol a oedd yn cael eu cofnodi mewn manylder. Roedd pob offer trydanol wedi cael prawf PAT ac roedd y system wresogi yn cael ei harchwilio'n flynyddol. Roedd offer glanhau yn cael ei gadw mewn cwpwrdd nad oedd gan blant fynediad iddo. Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus. Roedd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith. Roedd y staff yn hebrwng y plant o'r ysgol i'r neuadd gymunedol. Gwnaethpwyd hyn mewn modd trefnus gyda'r plant yn cerdded mewn parau ac yn gwisgo bibiau gwelededd uchel.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yna amgylchedd diogel i'r plant.

3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Roedd y gwasanaeth yn rhannu'r lleoliad gyda'r gymuned leol ac felly roedd yn rhaid i'r holl offer ac adnoddau gael eu gosod a'u symud o'r neilltu yn ddyddiol. Gwelsom y plant yn derbyn gofal yn y neuadd gyda digon o le i symud o gwmpas. Roedd gan y plant hefyd fynediad i ystafell lai, lle yr oeddent yn cael eu byrbrydau, yn chwarae ar yr Xbox ac yn gwneud gweithgareddau celf a chrefft. Roedd gan y plant hefyd fynediad i'r bwrdd pŵl a oedd wedi ei leoli tu fewn i gyntedd y ganolfan gymunedol.

Mae'r amgylchedd yn addas iawn i blant.

3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r plant yn elwa ar adnoddau, offer a theganau o ansawdd da.

Roedd yr adnoddau a'r offer o ansawdd da ac yn addas at eu diben. Roedd y staff wedi darparu blychau o deganau a fyddai'n cael eu hestyn ar gyfer pob sesiwn a gallai'r plant gael mynediad hawdd i'r teganau a'r offer yn annibynnol. Dywedodd staff wrthym fod y cyfarpar yn cael eu glanhau'n rheolaidd, a'u bod yn cael gwared ar deganau wedi torri ac yn cael rhai newydd yn eu lle. Roedd digonedd o adnoddau i'r plant ddewis o'u plith. Roedd gan y plant hefyd fynediad at ardal tu allan yr ysgol, y parc lleol a'r llwybr beicio. Roedd yr arweinwyr wedi cynnal asesiadau risg ac wedi cael caniatâd rhieni i'w plant gael defnyddio'r ardaloedd tu allan hyn.

Mae'r arweinwyr a'r staff yn darparu ac yn cynnal a chadw adnoddau a chyfarpar o ansawdd da.

4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Crynodeb

Mae'r arweinwyr wedi creu ethos cadarnhaol ac wedi meithrin perthnasau effeithiol â'r rhieni. Mae'r arweinwyr yn recriwtio staff addas sydd hefyd yn gweithio yn yr ysgol ac yn gwerthuso'r gwasanaeth yn gymwys.

Ein canfyddiadau

4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae anghenion plant wrth galon y ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn gweithredu polisïau'r gwasanaeth yn llawn megis y polisi ymddygiad a gwelsom hwy yn rhoi canmolïaeth drwy'r sesiwn. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn adolygu polisïau yn rheolaidd. Gwelsom y dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol. Roedd y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol cenedlaethol ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Roedd yn amlwg bod gan y staff berthynas gadarnhaol â'r rhieni, a roddodd adborth canmoladwy iawn ar y gwasanaeth.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol yn y gwasanaeth hwn.

4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae arweinwyr yn gofyn am safbwyntiau rhieni, staff a phlant yn ystod adolygiad blynyddol. Datblygwyd camau gweithredu er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth.

Roedd rhieni, staff a phlant wedi cwblhau holiaduron yn ystod tymor yr haf yn 2017. Roedd arweinwyr wedi dadansoddi'r adborth ac wedi nodi pwyntiau gweithredu neu dargedau er mwyn gwella'r gwasanaeth. Roedd arweinwyr wedi darparu blwch awgrymiadau i'r rhieni ac yn cynnal amser cylch unwaith yr wythnos i ganfod barn y plant. Canfuom fod barn y plant yn cael ei geisio ar amseroedd amrywiol yn ystod ein hymweliad, er enghraifft gofynnwyd i'r plant os oeddent yn hapus i gael tost fel byrbryd yn ogystal ag ymgynghori â nhw yn ystod y broses o gynllunio gweithgareddau.

Mae'r system hunanwerthuso yn effeithiol ac mae arweinwyr yn cynllunio'n briodol i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu.

4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, y staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y nifer cywir o staff yn y gwasanaeth a bod digon o weithgareddau ar gael ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu.

Gwnaethom wirio ffeiliau'r staff a chanfod bod yr holl ddogfennau perthnasol wedi'u cynnwys a bod yr holl wiriadau angenrheidiol wedi'u cwblhau. Roedd y staff wedi cymhwyso'n briodol. Roedd arweinwyr wedi cynnal arfarniadau blynyddol o'r holl staff ac wedi nodi anghenion hyfforddiant a thargedau personol i'w datblygu..

Mae rheolaeth ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn dda.

4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr wedi datblygu perthynas dda â'r rhieni

Gwelsom fod trafodaeth hamddenol rhwng rhieni a staff pan oedd gwarchodwyr yn dod i nôl eu plant. Dywedodd y person â gofal wrthym mai fel hyn y cawsai rhieni eu hysbysu o unrhyw ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Roedd gan arweinwyr gytundebau y cytunwyd arnynt gyda'r holl rieni ac roeddent wedi gofyn caniatâd ar gyfer agweddau ar y gwasanaeth megis tynnu ffotograffau. Dywedodd rhieni wrthym fod y gwasanaeth yn cyfathrebu'n dda â nhw.

Mae'r arweinwyr yn meithrin partneriaeth effeithiol â'r rhieni.

5. Gwelliannau y mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Dim

5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y canlynol

- bod plant yn cael mwy o gyfle i fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd
- bod arweinwyr yn cofrestru'r clwb ar ôl yr ysgol gydag asiantaeth safonau bwyd yr awdurdod lleol.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau.

Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 25 Medi 2017 am gyfanswm o dair awr;

- gwnaethom archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau, gan gynnwys ffeiliau staff, ffeiliau plant, polisïau, cofnodion hyfforddiant, cofnodion damweiniau a chofnodion cynllunio.
- gwelsom blant yn defnyddio'r SOFI (Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu) ac arsylwadau grŵp cyffredinol
- gwnaethom siarad â'r person cofrestredig/y person â gofal, plant, rhieni a staff.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal dydd plant Gofal y tu allan i oriau ysgol
Person cofrestredig	Michael Carruthers
Person â gofal	Nia Evans
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	24
Ystod oedran y plant	4 – 11 oed
Oriau agor	3.30pm-5.30pm o ddydd Llun i ddydd Iau
Iaith weithredol y gwasanaeth	Cymraeg
Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC	14 Hydref 2014
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	25 Medi 2017
Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?	Nac ydy
Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?	Ydy. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth.
Gwybodaeth ychwanegol:	